

FFURFLEN ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ARHOLWR ALLANOL

Mae canllawiau ar gael i'ch helpu i gwblhau'r Adroddiad hwn yn:
<http://learning.caerdydd.ac.uk/quality/review/external-examiners/reports/>.

	I'w lenwi gan yr Arholwr Allanol:		
Enw'r Arholwr Allanol:	R Alun Charles		
Sefydliad Cartref / Cyflogwr yr Arholwr Allanol:	[REDACTED]		
Y Rhaglen a / neu'r Pynciau sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn	Cymhwyster Cenedlaethol Tiwtoriaid Cymraeg i Oedolion		
Y Flwyddyn Academaidd / Cyfnod sy'n cael sylw yn yr Adroddiad hwn:	2015-16	Dyddiad yr Adroddiad:	10.07.2016

Gofynnir i'r Arholwr Allanol ateb yn y manau a ddarperir. Gallwch ymestyn y manau hynny os bydd angen. **Sylwch y caiff y Ffurflen hon ei chyhoeddi ar-lein, ac ni ddylai gyfeirio at unrhyw fyfyrwr unigol nac aelodau o staff.**

NODER

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at Ail Flwyddyn Cwrs y Cymhwyster yn unig (2015-16). Cyfeiriwyd at Flwyddyn Gyntaf Cwrs y Cymhwyster (2014-15) yn yr adroddiad a baratowyd y llynedd.

1. Strwythur y Rhaglen

Fel y nodwyd y llynedd, mae Llawlyfr yr Arholwyr (2014-16) yn trafod pob agwedd ar y Cymhwyster Cenedlaethol yn effeithiol. Mae'n cynnig darlun clir o'r deilliannau a'r safonau a ddisgwylir. Mae'r ddogfen yn llawn gwybodaeth bwrpasol. Trefn y canolfannau yw cynnig y cwrs dros ddwy flynedd. Y farn yn gyffredinol yw bod hynny'n fwy cydnaws â natur y gwaith yn hytrach na chynnig y cwrs am flwyddyn.

Mae myfyrwyr yn dilyn pedwar modiwl trwy ddulliau dysgu cyfunol, sef hanner ar-lein a hanner mewn dosbarthiadau wyneb yn wyneb. Mae'r arholwr allanol wedi derbyn enghreifftiau o waith mewn dau fodiwl y tro hwn, sef:

Modiwl 3: Cynllunio a Sicrhau Dysgu (10 Credyd)

Modiwl 4: Damcaniaethau (20 Credyd)

[Y llynedd, 2014-15 derbyniwyd y modiwlau canlynol

Modiwl 1: Paratoi i Addysgu Cymraeg i Oedolion

Modiwl 2: Cymraeg i Oedolion: Dysgu ac Addysgu]

2. Safonau Academaidd

Mae'r sampl yn cynnwys gwaith **tri** myfyriwr gwahanol ar gyfer pob aseiniad. Hynny yw, derbyniwyd **naw** darn o waith i gyd yn cynrychioli ystod o farciau ynghyd â'r ffurflenni marcio

Modiwl 3: Cynllunio a Sicrhau Dysgu (10 Credyd)

1 Arsylwi a Gwerthuso Gwersi

Y dasg oedd arsylwi a gwerthuso dwy wers Cymraeg i Oedolion ac un wers mewn iaith estron. Mae'r myfyrwyr wedi'u gosod yn y categori marciau cywir – 1-4. Mae sylwadau'r marcwyr i gydfynd â'r meini prawf ar y daflen asesu'n cyfateb ac yn gweddu i'r gwaith a gyflwynwyd. At ei gilydd, mae'r safonau'n dda a'r gwaith gorau'n rhagorol, yr iaith yn lân a'r elfen o ddadansoddi'n gref.

2. Portffolio Digwyddiadau

Pob portffolio'n cynnwys gwahanol ddigwyddiadau diddorol, gyda phosteri a lluniau l gydfynd â nhw. Mae sylwadau effeithiol a pherthnasol i'r dasg wedi'u cofnodi ar y daflen asesu a'r rheiny'n cydfynd ag ansawdd y gwaith a gyflwynir. Eto, mae safon yr iaith yn addawol.

Modiwl 4: Damcaniaethau (20 Credyd)

3.Proffil Dysgwr

Mae'r proffiliau'n gynhwysfawr. Mae'r safonau o leiaf yn foddhaol gyda'r goreuon yn amlygu gallu i ddadansoddi cryfderau a diffygion yn effeithiol.

NODER – ER GWYBODAETH

Y llynedd, 2014-15, derbyniwyd samplau o Fodiwlau 1 a 2 a hefyd arsylwyd Sesiynau Addysgu

3. Y Broses Asesu

Mae'r broses asesu, gan gynnwys y marcio, yr ailfarcio a'r cymedroli, yn gweithio'n effeithiol, yn cwrdd â gofynion y cwrs yn llawn ac yn annog proses o ddatblygiad parhaus.

At ei gilydd, mae'r. marciau a ddyfernir yn amlygu cysondeb a safon gyffelyb ar draws y canolfannau. Mae hynny'n awgrymu safoni mewnol trylwyr.

4. Sylwadau o Flwyddyn i Flwyddyn

Mae cynnal y cwrs dros ddwy flynedd wedi arwain at well trefn a hefyd well safonau. *[Gweler hefyd y sylwadau ar ran gyntaf y cwrs yn adroddiad 2014-15]*

Cynhaliwyd y safonau a gyrhaeddwyd y llynedd (2014-15) yn ystod 2015-16.

Mae ansawdd Cymraeg ysgrifenedig y myfyrwyr yn amlygu cynnydd da ac yn dangos fod y tiwtoriaid yn rhoi sylw dyladwy a chynyddol i loywi iaith.

5. Gweithgarwch Paratoi / Ymsefydlu (i Arholwyr Allanol newydd yn unig)

Ddim yn berthnasol

6. Ymarfer Nodedig a'i Wella

Mae cynnydd a wnaethpwyd yn cadarnhau'r sylw helaethach a roddir i fentora a sesiynau adborth a gloywi iaith.

7. Sylwadau ynghylch Asesu Traethodau Hir Gradd Athro (Arholwyr Allanol ar gyfer Rhaglenni Athro ôl-raddedig yn unig, gweler hefyd 9.23-9.29 isod).

Ddim yn berthnasol

8. Trosolwg o'r Penodiad (i Arholwyr Allanol sy'n ymddeol yn unig)

Bu gwell graen ar y cwrs yn gyffredinol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae ansawdd y gwaith, gan cynnwys Cymraeg ysgrifenedig y myfyrwyr, yn galonogol iawn. Yn ddiamau, mae'r cymhwyster yn un gwerthfawr i ddatblygu medrau darpar diwtoriaid. Mae'r sesiynau addysgu a arsylwyd yn ystod 2014-15, sef rhan gyntaf y cwrs, yn ategu hyn.

9. Rhestr Wirio'r Adroddiad Blynyddol

Dylech gynnwys sylwadau priodol yn Adrannau 1-8 uchod ar gyfer unrhyw ateb 'x'.

		✓	x	Amherthnasol
Gwybodaeth am y Rhaglen/Cwrs				
9.1	A gawsoch ddigon o wybodaeth am gynnwys, deilliannau dysgu ac asesiadau'r Rhaglen?	✓		
9.2	A gawsoch gais i roi'ch sylwadau ar unrhyw newid i'r asesu ar y Rhaglen?	✓		
Papurau Arholiad Drafft				
9.3	A ofynnwyd i chi gymeradwyo'r holl bapurau arholiad a oedd yn cyfrannu at y dyfarniad terfynol?			✓
9.4	A oedd natur, rhychwant a lefel y cwestiynau'n briodol?			✓
9.5	A wnaed trefniadau addas i ystyried eich sylwadau?			✓
Marcio'r Sgriptiau Arholiad				
9.6	A gawsoch ddigon o sgriptiau i allu asesu a oedd y marcio mewnol a'r dosbarthu ar y marciau yn briodol ac yn gyson?			✓
9.7	A oedd safon gyffredinol a chysondeb y marcio yn briodol?			✓
9.8	A farciwyd y sgriptiau mewn ffordd a oedd yn eich galluogi i weld y rhesymau dros ddyfarnu'r marciau a roddwyd?			✓
9.9	A oeddech yn fodlon ar safon a chysondeb y marcio gan yr arholwyr mewnol?			✓
9.10	Yn eich barn chi, a gawsoch gyfle i astudio croestoriad digonol o'r gwaith a wnaed gan yr ymgeiswyr a oedd yn cyfrannu at yr asesiad terfynol?			✓
Gwaith Cwrs ac Asesiadau Ymarferol				
9.11	A oedd y dewis o waith cwrs a/neu asesiadau ymarferol yn briodol?	✓		
9.12	A gawsoch weld sampl briodol o'r gwaith cwrs a/neu asesiadau ymarferol?	✓		

		✓	✗	Amherthnasol
9.13	A oedd dull yr asesu, a'i safon gyffredinol, yn briodol?	✓		
9.14	A gaiff y myfyrwyr ddigon o adborth ar eu gwaith asesedig?	✓		
Archwiliadau Clinigol (os yn gymwys)				
9.15	A wnaed trefniadau boddhaol i gynnal asesiadau clinigol?			✓
Samplu Gwaith				
9.16	A gawsoch ddigon o amser i ystyried samplau o'r gwaith asesedig?	✓		
Cyfarfod y Bwrdd Arholi				
9.17	A oeddech yn gallu dod i gyfarfod y Bwrdd Arholi?	✓		
9.18	A gafodd y Bwrdd Arholi ei gynnal yn briodol, yn unol â'r gweithdrefnau sefydledig ac mewn ffordd a oedd yn eich bodloni chi?	✓		
9.19	Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod cyfraniad cynhyrchiol yr Arholwyr Allanol at y broses asesu ac yn enwedig at waith y Bwrdd Arholi. A gawsoch ddigon o gyfle i drafod y Rhaglen, ac unrhyw bryderon na chawsant eu datrys, gyda'r Bwrdd Arholi neu ei swyddogion?	✓		
Cyfarfod y Cyd-Fwrdd Arholi (os yn gymwys)				
9.20	A aethoch i gyfarfod Cyd-Fwrdd Arholi (h.y. un a gafodd ei gynnull i ystyried dyfarnu graddau Cydanrhydedd)?			✓
9.21	Os do, a gawsoch wybod am y gweithdrefnau a'r confensiynau ar gyfer dyfarnu graddau Cydanrhydedd?			✓
9.22	A gynhaliwyd y Cyd-Fwrdd Arholi yn unol â'i reolau?			✓
Asesu Traethodau Hir Gradd Athro (os yn berthnasol)				
9.23	A gawsoch ddigon o sgriptiau i allu asesu a oedd y marcio mewnol a'r dosbarthu ar y marciau yn briodol ac yn gyson?			✓
9.24	A oedd y sampl yn cyd-fynd â chanllawiau samplu'r Brifysgol?			✓
9.25	A oeddech yn fodlon ar safon a chysondeb marcio'r Arholwyr Mewnol?			✓
9.26	A oeddech yn gallu mynd i Fwrdd Arholi Cam (Traethawd Hir) y Radd Athro?			✓
9.27	Os felly, a gynhaliwyd y Bwrdd Arholi'n briodol ac yn unol â gweithdrefnau sefydledig?			✓
9.28	A ddefnyddiwyd y cynlluniau ar gyfer marcio a dosbarthu yn gywir?			✓
9.29	A oedd safonau'r dyfarniadau a argymhellwyd yn briodol?			✓

Dylech ddychwelyd yr Adroddiad hwn, mewn fformat Microsoft Word yn ddelfrydol, drwy ebost i:

ExternalExaminers@caerdydd.ac.uk

Dylech anfon eich ffurflen hawlio ffioedd a threuliau yn electronig i'r cyfeiriad ebost uchod neu ar ffurf copi caled i'r cyfeiriad isod:

Arholwyr Allanol, Y Gofrestrfa a Gwasanaethau Academaidd, Prifysgol Caerdydd, Tŷ McKenzie, 30-36 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0DE

SAMPLU TRAETHODAU HIR RHAGLEN ATHRO GAN ARHOLWYR ALLANOL

Disgwylir i Arholwyr Allanol weld nifer rhagnodedig ac amrywiaeth o draethodau hir, ond nid i'w marcio, ar y sail ganlynol:

Rhaid i Arholwr/Arholwyr Allanol weld o leiaf 10% o'r traethodau hir ar gyfer Rhaglen Athro ôl-raddedig a addysgir, neu isafswm o 10 (pa un bynnag sydd uchaf). Os oes llai na 10 traethawd hir, rhaid i'r Arholwr/Arholwyr Allanol weld pob un ohonynt #.

Dylai'r traethodau hir sy'n cael eu gweld gan Arholwyr Allanol gynnwys enghreifftiau o'r ystod gyfan o lwyddiant (h.y. Pasio gyda Rhagoriaeth, Pasio, Methu).

Bydd Arholwyr Allanol yn cadw'r hawl i weld traethodau hir eraill ar hap.

Os penodir mwy nag un un Arholwr Allanol ar gyfer Rhaglen, dylai'r Arholwyr Allanol weld o leiaf 10% o'r traethodau hir, neu isafswm o 10 (pa un bynnag sydd uchaf) ar y cyd.